# Dileu gwasanaethau ffacs o’r rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ar BT a KCOM

**DATGANIAD**

Dyddiad cyhoeddi: 13 Ionawr 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg 1

# 1. Trosolwg

Mae’r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol dros y ffôn yn sicrhau bod set sylfaenol o wasanaethau ffôn ar gael am bris fforddiadwy i bobl ledled y DU. BT a KCOM yw’r darparwyr gwasanaeth cyffredinol dynodedig yn y DU, ac mae rheolau presennol Ofcom ar gyfer Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn mynnu eu bod yn darparu gwasanaethau ffacsimili (ffacs). Mae cwmpas y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn cael ei bennu gan y Llywodraeth drwy ddeddfwriaeth a, than yn ddiweddar, roedd yn mynnu bod gwasanaethau ffacs yn cael eu darparu ledled y DU fel gwasanaeth cyffredinol.

Yn ddiweddar, mae’r Senedd wedi dileu’r gofyniad i ddarparu gwasanaethau ffacs o’r ddeddfwriaeth Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol gan Ofcom ym mis Tachwedd 2021. Cafodd y diwygiad hwn ei wneud oherwydd bodd rhwydweithiau ffôn yn raddol symud i dechnoleg protocol rhyngrwyd (IP), sy’n golygu na ellir gwarantu bod gwasanaethau ffacs yn gweithio yn yr un ffordd mwyach. Mae hefyd yn adlewyrchu’r ffaith mai cyfyngedig iawn yw’r defnydd o ffacs yn y DU erbyn hyn, ac mae dewisiadau eraill ar gael am ddim, neu am bris isel.

Yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ddileu gwasanaethau ffacs o’r ddeddfwriaeth Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad arall y llynedd ar gynigion i ddiweddaru ein rheolau ar BT a KCOM i roi’r newid hwn ar waith.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

**Rydym yn diwygio ein rheolau i ddileu’r gofyniad i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau ffacs o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.** Nid yw’r newid hwn yn golygu y bydd gwasanaethau ffacs yn stopio gweithio ar unwaith, ond yn hytrach ni fydd yn rhaid i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau ffacs o dan ein rheolau mwyach – bydd hyn yn sicrhau bod ein rheolau’n adlewyrchu’r gofynion yn y ddeddfwriaeth gwasanaeth cyffredinol ac nad ydynt yn rhy feichus. Bydd angen i ddefnyddwyr presennol y system ffacs chwilio am ddewisiadau amgen (fel e-bost) cyn i’w rhwydweithiau fôn gael eu mudo i IP - bydd yr amserlenni ar gyfer hyn yn dibynnu ar eu darparwr ffôn, ond disgwylir y bydd hynny cyn diwedd 2025.